

## **SWYDDOG PROFFESIYNOL ADDYSG GREFYDDOL I CYSAG**

### **Cynrychiolydd i'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol PYCAG 19/11/18**

Annwyl Gyfarwyddwr Addysg,

Yng nghyfarfod diweddar y Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol (PYCAG) cafodd aelodau wybod na fydd nifer o gydweithwyr sydd wedi darparu cefnogaeth broffesiynol yn y gorffennol i Awdurdodau Lleol/CYSAGau/Consortia ar gyfer addysg grefyddol, bellach yn parhau yn eu gwaith, naill ai oherwydd ymddeoliad, neu faterion capasiti/cyllid cyfyngedig. Mae'r cydweithwyr hyn wedi bod yn aelodau gwerthfawr a chefnogol o PYCAG ers sawl blwyddyn ac rydym wedi dibynnu ar eu harbenigedd mewn cyfarfodydd.

Yn amlwg mae hyn yn bryder i PYCAG, ond mae'n bryder i CYSAG ac i athrawon hefyd sydd yn gwerthfawrogi ac yn dibynnu ar y gefnogaeth honno. Fel y gwyddoch, mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i gynnal Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol, ac mae'r pwyllgor hwn yn gweithio fwyaf effeithlon gyda swyddog cefnogi addysg grefyddol proffesiynol ymroddedig i'w wasanaethu ac i sicrhau bod ei ddyletswyddau statudol yn cael eu cynnal yn briodol. Yn ddiweddar fe dynnodd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru sylw at y mater hwn mewn llythyr atoch chi yn gofyn i chi am wybodaeth ynghylch lefel y gefnogaeth broffesiynol ar gyfer Addysg Grefyddol a Chyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol yn eich Awdurdod Lleol.

Gyda hynny mewn golwg, ac fel Cadeirydd PYCAG, fe hoffwn eich gwahodd i enwebu cynrychiolydd newydd o'ch Awdurdod Lleol i fynychu cyfarfydd PYCAG bob tymor, er mwyn cadw i fyny gyda'r datblygiadau a phroblemau o ran Addysg Grefyddol yng Nghymru, ac er mwyn cefnogi eich awdurdod lleol wrth ddelio â materion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol. Yn amlwg fe fyddai'n ddymunol petai gan y cynrychiolydd arbenigedd a phrofiad o addysg grefyddol.

**Cynhelir cyfarfodydd PYCAG bob amser ddiwrnod cyn cyfarfodydd Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru ac maent yn cael eu cynnal tair gwaith y flwyddyn mewn lleoliadau gwahanol ar draws Cymru. Mae'r cyfarfod nesaf ym Mro Morgannwg ddydd Llun 19 Tachwedd 2018.**

Diolchwn ymlaen llaw am eich cefnogaeth. Os hoffech chi drafod unrhyw un o'r pwyntiau uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi a buaswn yn hapus i gael sgwrs gyda chi. Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Dymuniadau gorau,

**Libby Jones**

Ymgynghorydd Addysg Grefyddol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam  
**Cadeirydd PYCAG**